

ATODLEN 3

Safonau gweithredu

RHAN 3

DEHONGLI'R SAFONAU

-
- 10** Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.
- 11**
- (1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw destun nad yw wedi ei lunio ("testun A").
 - (2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol os nad yw'n cyfieithu testun A i'r Gymraeg ond gweler is-baragraff (3).
 - (3) Rhaid i gorff ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o destun A os yw person arall wedi llunio testun A yn Gymraeg yn unol—
 - (a) â'i Gynllun Iaith Gymraeg;
 - (b) â dyletswydd i gydymffurfio â safonau;
 - (c) â Rheolau Sefydlog y Cynulliad;
 - (ch) ag adran 35(1C) o Ddeddf 2006; neu
 - (d) â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad.
 - (4) Yn y paragraff hwn—
 - (a) ystyr "Cynllun Iaith Gymraeg" yw cynllun iaith Gymraeg a lunnir yn unol â Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993;
 - (b) ystyr "dyletswydd i gydymffurfio â safonau" yw dyletswydd i gydymffurfio â safon o dan adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
 - (c) ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
 - (ch) ystyr "Rheolau Sefydlog y Cynulliad" yw rheolau sefydlog a wnaed o dan adran 31 o Ddeddf 2006;
 - (d) ystyr "Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad" yw'r Cynllun a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd o dan baragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.
- 12** At ddibenion safonau 128, 129 a 130 (mewnwyd corff), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
 - (a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw, maint, ffont, a fformat unrhyw destun);
 - (b) pryd y caiff y deunydd ei gyhoeddi ar y fewnwyd;

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

ond nid yw'n golygu bod yn rhaid i'r deunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â'r deunydd Saesneg, nac ar dudalen a fydd yn debygol o agor cyn y fersiwn Saesneg gyfatebol o'r dudalen.

- 13** At ddibenion safonau 146A (recriwtio) a 150 (arwyddion mewnol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
- (a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw neu ffont unrhyw destun);
 - (b) maint y deunydd;
 - (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
 - (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
 - (d) fformat cyhoeddi'r deunydd.
- 14** At ddibenion y safonau, nid yw gofyniad i gyhoeddi, darparu neu arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid cyhoeddi, darparu neu arddangos deunydd yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon).
- 15** Nid yw safonau 128 i 131 (y fewnrwyd) yn gymwys i—
- (a) dogfennau y darperir dolen iddynt ar y fewnrwyd, deunydd hysbysebu ar y fewnrwyd, na chlipiau fideo a sain ar y fewnrwyd (gweler safonau 112 i 118 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau);
 - (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar fewnrwyd corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau neu ar fforwm trafod).
- 16** At ddibenion safonau 145 a 145A yn unig—
- (a) mae “swydd” yn cynnwys penodiad cyhoeddus;
 - (b) ystyr “penodiad cyhoeddus” yw unrhyw benodiad i gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus.
- 17** Nid yw safon 153 yn gymwys pan wneir y neges y byddwch yn ei chyhoeddi dros system annerch gyhoeddus yn ystod argyfwng neu ymarfer argyfwng.
-